Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Tonyfelin
# Ton-y-Felin Chapel
# Tonyfelin Road
# Caerphilly
# CF83 1PA

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2020**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Tonyfelin

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Tonyfelin |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Plant sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Pwyllgor Cylch Meithrin Tonyfelin |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Philip Bevan |
| Person â gofal | April Martin |
| Nifer y lleoedd | 40 |
| Amrediad oedran y plant | 3 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 3 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – Dydd Iau 9:00 y bore hyd 12:00 y prynhawn |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydi |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydi |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu "cynnig gweithredol" y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Arolwg cyntaf ers cofrestru |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 22/02/2012 |

| | |
|---|---|
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 14/01/2020 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br><br>Saesneg yw prif iaith y cartref mwyafrif y plant | |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| Lles | Da |
| Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir) | Barn |
| Gofal a datblygiad | Da |
| Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir) | Da |
| Yr amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Digonol |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

R1 Sicrhau bod ymarferwyr yn egluro tasgau a phrofiadau dysgu’n effeithiol i herio’r plant yn fwy pwrpasol

R2 Cynllunio cyfleoedd buddiol i blant hŷn ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar

R3 Sefydlu gweithdrefnau hunanwerthuso cadarn sy’n arwain at gynlluniau gwella effeithiol

R4 Sicrhau bod arferion monitro’r pwyllgor rheoli yn drylwyr a chyson

## Beth sy’n digwydd nesaf

‘Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.’

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae’r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu teimladau’n glir ac yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau effeithiol ynglŷn â ble a gyda phwy i chwarae. Er enghraifft, yn ystod chwarae rhydd, mae’r rhan fwyaf yn dewis ble i chwarae, gan symud yn hyderus o un gweithgaredd i’r llall. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf yn mynegi eu hoffterau’n hyderus, fel dewis i chwarae â thywod yn hytrach nag ymuno ag amser cylch.

Mae bron pob plentyn yn hapus ac yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Mae’r rhan fwyaf yn cyrraedd y lleoliad yn eiddgar ac yn ymdopi’n dda iawn wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a’u gofalwyr. Maent yn ffurfio ymlyniadau cadarnhaol â’u gweithwyr allweddol a phlant eraill, sy’n effeithio’n gadarnhaol ar eu llês a’u gwaith dyddiol. Mae’r ychydig iawn o blant sydd yn ansicr wrth gyrraedd, yn bodloni ar gysur gan ymarferwyr cyn iddynt ymgyfarwyddo â’r drefn ddyddiol, sy’n tawelu unrhyw bryderon sydd ganddynt yn effeithiol. O ganlyniad, mae bron pob un plentyn yn ymwybodol y bydd ymarferwyr yn gwrando ar eu dymuniadau ac yn ymateb yn briodol a synhwyrol i’w hanghenion.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod chwarae rhydd ac yn ystod gweithgareddau grŵp. Mae llawer yn rhannu adnoddau’n dda ac yn dechrau deall sut i gymryd eu tro yn llwyddiannus Er enghraifft trwy gydweithio’n effeithiol yn torri llysiau i wneud cawl. Mae llawer yn deall yn ystyrlon y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy’n gywir ac yn anghywir ac maent yn dweud ‘diolch’ yn gwrtais, pan fo’n briodol.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu, fel chwarae gyda thoes i greu siapau diddorol a chreu castell allan o dywod yn y gegin fwd. Mae’r mwyafrif o blant yn dyfalbarhau â’u tasgau’n briodol ac yn ymateb yn addas i anogaeth gan ymarferwyr, er enghraifft trwy ymuno a’r canu amser cylch.

Mae bron pob plentyn yn mwynhau dysgu medrau newydd wrth iddynt arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleodd chwarae ysgogol. Mae eu cymhelliant tuag at gwblhau tasgau yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu. Mae ganddynt fedrau hunangymorth da iawn ac maent yn golchi eu dwylo ag arllwys diod gydag ychydig o gymorth gan oedolion. Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau annibynnol yn arbennig o dda yn ystod amser byrbryd o ganlyniad i’r cyfloedd da sy’n cael eu darparu ar eu cyfer.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Barn**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant oherwydd nid oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae'r ymarferwyr yn rhoi blaenoriaeth uchel i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn gweithredu holl bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn briodol. Mae tystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol gan bron pob un ohonynt, sy'n adlewyrchiad da o'r gofal diwyd sy'n bodoli yn y lleoliad. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau priodol wrth weini meddyginiaethau ac wrth ddelio gydag unrhyw ddamweiniau. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn annog y plant i gymryd rhan mewn cynlluniau amrywiol sy'n hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn llwyddiannus, er enghraifft trwy frwsio dannedd yn ddyddiol a sicrhau bod byrbrydau a diodydd iach ar gael i'r plant.

Trwy arferion pob dydd, mae ymarferwyr yn cynnig cyfleodd gwerthfawr i'r plant wneud ymarfer corff ac i chwarae tu allan Er enghraifft drwy yrru beiciau yn yr ardd. Mae gweithdrefnau ac arferion hylendid y lleoliad yn dda iawn ac anogir plant i olchi eu dwylo ar yr amseroedd priodol.

Mae'r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant yn effeithiol. Maent yn modelu ymddygiadau synhwyrol yn garedig ac yn atgoffa'r plant yn rheolaidd i rannu teganau ac i barchu ei gilydd ac oedolion. Maent yn annog y plant i ddatrys unrhyw wrthdaro trwy drafodaethau gyda'i gilydd, heb or-ymyrraeth oedolyn. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn canmol y plant yn amserol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu eu hunanhyder a'u dealltwriaeth o barchu eu gilydd.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion a'u dymuniadau unigol. Mae gan y lleoliad weithdrefnau buddiol i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio asesiadau'n ddeallus i adnabod plant sydd angen cymorth ac i drefnu darpariaeth addas ar eu cyfer. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu bwyd, papur, gwydr, cerdyn a phlastig sydd yn annog ymwybyddiaeth plant am ofalu am yr amgylchedd.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm diddorol, sy'n adlewyrchu athroniaeth y cyfnod sylfaen yn effeithiol. Maent yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu yn ddeallus sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r plant. Mae'r gweithgareddau pwrpasol yn cynnwys heriau i ymateb ar lafar am helyntion arth, i rifo'n gywir wrth osod cregyn mewn potiau ac i ddefnyddio llechi electronig ac apiau addysgol. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn llwyddo'n fwriadus i wella medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn ysgogi'r plant hŷn yn fwriadus i greu marciau yn annibynnol.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau corfforol a chreadigol y plant. Maent yn eu cymell i gydweithio'n effeithiol wrth ddysgu'n ymarferol. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i gydbwyso ar riliau, gyrru beiciau a pheintio blodau a ffrwythau gyda phaent llachar wrth îsl. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio'n ddiwyd ar wella Cymraeg y plant, yn ystod yr holl weithgareddau, trwy fodelu geiriau ac ailadrodd ymadroddion cyfarwydd.

Mae'r ymarferwyr yn holi'r plant yn ddoeth, sy'n effeithio'n gadarn ar eu medrau, fel trafod cynhwysion cawl ac arogleuon y llysiau. Maent yn ymyrryd yn synhwyrol yn ystod gweithgareddau sydd dan gyfarwyddyd oedolyn a thasgau annibynnol y plant. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn egluro'r dasg yn ddigon effeithiol i herio'r plant i gwblhau eu gwaith hyd eithaf eu gallu.

Mae'r gweithdrefnau i asesu cynnydd y plant yn effeithiol ac mae'r dystiolaeth yn cyfatebu'n gywir â deilliannau'r plant. Mae'r ymarferwyr yn asesu'n rheolaidd ac yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant ar sut i wella'u gwaith. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn defnyddio canfyddiadau'r asesiadau yn dda i gynllunio'n effeithiol ar gyfer y camau nesaf yn nysgu'r plant.

Mae pwyslais clir gan ymarferwyr ar ddathlu amrywiaeth a datblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Er enghraifft, maent yn astudio'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali yn flynyddol gyda'r plant ac yn rhoddi cyfleoedd iddynt chwarae gyda doliau o wahanol ddiwylliannau. Maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru'n llwyddiannus trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a phobi bwydydd traddodiadol fel bara brith. Gwneir defnydd buddiol o ymwelwyr fel cwmni anifeiliaid egsotig i gyfoethogi'r themâu. Yn ogystal, maent yn defnyddio'u milltir sgwâr yn bwrpasol, fel crwydro'r goedwig leol ac ymweld â Chastell Caerffili, sy'n ymestyn ymwybyddiaeth y plant o'u cymuned yn bwrpasol.

Mae'r ymarferwyr yn cynnal cyfarfodydd tymhorol gyda rhieni i drafod cynnydd eu plant. Yn ogystal, maent yn darparu llyfryn ac adroddiad cynnil defnyddiol iddynt ar ddiwedd cyfnod y plentyn yn y lleoliad, sy'n adlewyrchu cyflawniadau eu plant yn dda.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd ysgogol tu fewn a thu allan ar gyfer y plant mewn ardaloedd sydd wedi eu cynllunio i'w hannog i ddysgu a datblygu'n effeithiol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y safle'n ddiogel trwy weithredu polisïau a gweithdrefnau priodol.

Mae gan yr ymarferwyr ymwybyddiaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau wrth gadw'r plant yn ddiogel. Er enghraifft, maent yn cwblhau asesiadau risg dyddiol o'r ardaloedd tu fewn a thu allan i'r adeilad er mwyn sicrhau eu bod yn addas a diogel ar gyfer defnydd y plant. Caiff ymarferwyr eu defnyddio'n effeithiol i oruchwylio plant yn ystod gweithgareddau i sicrhau eu diogelwch. Ni all ymwelwyr fynd at unrhyw ran o'r lleoliad oni bai fod ymarferwr yn rhoi mynediad iddynt. Mae'r ymarferwyr yn ymwybodol iawn o faterion diogelwch a'r gofynion angenrheidiol sydd arnynt i gynnal driliau tân rheolaidd.

Mae'r safle'n lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn. Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid effeithiol, er enghraifft trwy wisgo dillad priodol i weini byrbrydau. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid cewynnau yn lân ac yn cydymffurfio â gofynion glendid.

Mae'r ymarferwyr yn darparu a pharatoi amrywiaeth da o adnoddau ym mhob ardal tu fewn a thu allan gan gynnwys ardaloedd chwarael rôl, darllen, tywod a chelf a chrefft. Yn yr ardal tu allan mae plant yn cael cyfle i blanu perlysiau, chwarae yn

gegin fwd a reidio beic. Mae'r adnoddau yn cael eu cadw ar lefel ymarferol i'r plant eu cyrraedd, eu hestyn a'u cadw heb ymyrraeth oedolion.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol**

Mae'r arweinydd yn newydd i'w rôl ac mae hi wedi sefydlu gweithdrefnau priodol, mewn amser byr, i gefnogi dysgu'r plant. Mae hi'n arwain arferion dyddiol y lleoliad yn effeithiol ac yn dirprwyo cyfrifoldebau i'r ymarferwyr yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae ffocws clir ganddi i ddarparu profiadau diddorol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r plant.

Mae'r cynllunio ar gyfer profiadau cyffrous, y gofal diwyd a'r addysgu cadarn yn canolbwyntio ar fodloni anghenion y plant yn ddeallus. Mae'r ymarferwyr yn ymroi i'w gwaith yn llwyr. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ac maent yn cymell y plant i ddysgu'n gynhyrchiol, mewn ffyrdd cefnogol a synhwyrol. Maent yn awyddus i wella eu harferion ac maent yn ymateb yn fodlon i gyngor yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau hunanwerthuso addas. Er hyn, nid yw'r arweinydd wedi cael digon o amser i sefydlu cadernid i'r prosesau. O ganlyniad, nid ydynt yn effeithio'n drwyadl ar y cynlluniau gwella i ddatblygu'r lleoliad ymhellach. Mae'r arweinydd wedi dechrau ar y weithdrefn o ystyried barnau eraill, fel rhieni a gofalwyr ac asiantaethau allanol. Gwneir hyn trwy ddosbarthu holiaduron ac wrth gynnal trafodaethau ystyrlon â phawb sy'n gysylltiedig â'r lleoliad. Mae hyn yn dechrau effeithio'n gadarnhaol ar agweddau sydd angen eu datblygu. Er enghraifft, maent newydd ddechrau dosbarthu cylchlythyron a threfnu sesiynau agored i deuluoedd, yn dilyn awgrymiadau o'r holiaduron.

Mae'r pwyllgor rheoli yn newydd iawn i'w rolau, ac wedi gorfod ymateb i heriau rheolaethol yn fuan iawn ers iddynt benderfynu cofrestru fel endid cyfreithiol. Mae ganddynt drefniadau boddhaol i fonitro deilliannau'r plant a'r ddarpariaeth ac maent yn dilysu penderfyniadau'r arweinydd yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau hyn yn sefydlog ac wedi gwreiddio'n gadarn. O ganlyniad, nid yw'r arferion monitro, ar gyfer goruchwylio a gwerthuso'r gweithdrefnau arwain, yn ddigon cyson a dibynadwy.

Mae'r arweinydd yn sicrhau dyraniad da o adnoddau yn yr ardaloedd dysgu. Mae hi'n arwain tîm o ymarferwyr cymwys yn frwdfrydig ac mae hi'n sicrhau bod hyfforddiant pwrpasol ar gael i ddatblygu medrau unigolion yn effeithiol. Yn ogystal, mae'r defnydd o'r gyllideb a grantiau yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn unrhyw anghenion yn dda. O ganlyniad, mae'r arweinydd yn sicrhau bod y gwariant yn effeithio'n fwriadus ar y ddarpariaeth. Enghraifft dda yw archebu adnoddau pren cynaliadwy, yn hytrach na chyfarpar plastig.

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau da ac maent yn cydweithio'n effeithiol i gynnal y ddarpariaeth a gwella deilliannau'r plant. Er enghraifft, mae cysylltiadau cadarnhaol yn bodoli gyda'r ysgol leol i gefnogi'r plant, wrth iddynt symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/03/2020

Cylch Meithrin Tonyfelin
Capel Ton-y-Felin
Heol Tonyfelin
Caerffili
CF83 1PA

14 Gorffennaf 2021

**Cylch Meithrin Tonyfelin**

**Canlyniad Adolygiad Cynnydd**

Barnwyd bod angen monitro pellach ar Gylch Meithrin Tonyfelin mewn perthynas â materion allweddol i weithredu arnynt ar ôl yr adolygiad cynnydd gan AGC ac Estyn yn ystod haf 2021.

Bydd y lleoliad yn aros ar restr y lleoliadau y mae angen eu monitro, a bydd adolygiad pellach yn cael ei gynnal ymhen tua 6 mis.

Yn gywir

**Kevin Barker**
Pennaeth Gofal Plant a Chwarae Arolygiaeth Gofal Cymru

**Mererid Wyn Williams**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Estyn

AGC/CIW, Swyddfa Llywodraeth Cymru/Welsh Government office,
Parc Busnes Rhydycar/Rhydycar Business Park, Merthyr Tudful/Merthyr Tydfil, CF48 1UZ
Ffôn/Telephone 0300 7900 126
agc@llyw.cymru • ciw@gov.wales
www.careinspectorate.wales
********
Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.